



ENTRE**COMPEDU**

Modiwl 5:

Mynd yn Ddyfnach 5.2

Ymarfer Bwriadol



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union



EntreCompEdu is co-funded by the Erasmus+ Programme of the European Union. The European Commission support for the production of this publication does not constitute an endorsement of the contents which reflects the views only of the authors, and the Commission cannot be held responsible for any use which may be made of the information contained therein.



Co-funded by the
Erasmus+ Programme
of the European Union

Cynnwys

Mynd yn Ddyfnach 5.2

Archwilio Ymarfer Bwriadol **Error! Bookmark not defined.**

Gweithgaredd: Eich potensial..... **Error! Bookmark not defined.**



Archwilio Ymarfer Bwriadol

Mae ymarfer bwriadol yn broses barhaus o hunanwella, ac mae'n cael ei restru gan John Hattie yn un o'r pethau mwyaf effeithiol y gallwch eu gwneud i fod yn athro gwell.¹ Mae'n cynnwys dewis sgil broffesiynol benodol i'w hymarfer yn fynych dros gyfnod estynedig, a defnyddio adborth gan ffynhonnell ddibynadwy a gwybodus i fireinio'r hyn yr ydych yn ei wneud yn barhaus. Mae'r rheiny sy'n cyflawni orau ym maes chwaraeon yn gwneud hyn bob dydd, hynny yw, oriau ac oriau o ymarfer penodol â ffocws.

Y man cychwyn yw bod yn onest wrth ddisgrifio a ydych yn ymddwyn mewn ffordd entrepreneuriaidd. Er enghraifft, sut yr ydych yn ymateb pan fyddwch yn wynebu sefyllfaoedd anodd? A ydych yn gweld posibiladau lle mae eraill yn gweld problemau? A ydych yn credu bod cymryd risg yn debyg i brynu tocyn loteri, h.y. mater o siawns? A ydych yn hoffi cael y gair olaf?

Mae Ffigur 5.2.1 yn dangos proses ymarfer bwriadol. Gallwch edrych ar y cymwyseddau yn EntreCompEdu a dewis un yr ydych yn teimlo ei fod yn flaenoriaeth o ran eich datblygiad proffesiynol eich hun. Yna, mae angen i chi lunio nod ac adnabod rhywun a all gynnig adborth adeiladol. Os nad yw hyn yn bosibl, gallech ddefnyddio rhwydweithiau trwy'r cyfryngau cymdeithasol. Er mwyn gwneud gwahaniaeth, mae ymarfer bwriadol yn gofyn amser, ymdrech, ymagwedd ymatebol a ffocws diwyro. Ond mae'n ddull gweithredu profedig o ran gwneud gwahaniaeth parhaol i ansawdd perfformiad.

Gellir cymhwyso'r un broses o ymarfer bwriadol i [ddysgu myfyrwyr](#) (gweler Tasg 5.5.2).

¹ Gweler: <https://www.evidencebasedteaching.org.au/deliberate-practice-in-education/>




Tasg Hyfforddi Ddewisol LoopMe 5.2.1: Eich potensial

Cwblhewch yr arolwg 10 munud a fydd yn asesu eich potensial entrepreneuriaidd, sydd ar gael ar y wefan: <https://www.bdc.ca/en/articles-tools/entrepreneur-toolkit/business-assessments/pages/entrepreneurial-potential-self-assessment.aspx>

Darllenwch yr adborth a myfyriwch ar yr hyn y mae'n ei ddweud wrthyhych am eich natur bresennol?

Cynllun Ymarfer Bwriadol



Ffigur 5.2.1 Proses Ymarfer Bwria